# Gwybodaeth ar gyfer



# Cynhalwyr Ifainc

## sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf


RHONDDA CYNON TAF

# Cynhalwyr Ifainc - pwy ydyn nhw?

"Dw i'n helpu fy mrawd achos bod anghenion arbennig gyda fe"

"Dw i'n helpu gwneud y gwaith tŷ ac yn helpu cysuro Mam am ei bod hi'n sâl"

"Dw i'n mynd i'r siop dros Dad achos dydy e ddim yn gallu cerdded yn dda iawn"



Mae cynhalwyr ifainc yn blant neu'n bobl ifainc sy'n helpu i ofalu am rywun yn eu teulu.

Mae'r person maen nhw'n gofalu amdanyn nhw fel arfer yn rhiant, ond mae'n bosibl eu bod yn gofalu am frawd neu chwaer, mam-gu neu dad-cu neu berthynas arall sydd angen gofal o ganlyniad i anabledd, salwch, problemau iechyd meddwl neu broblemau gyda chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

# Pa gymorth sy 'na ar gyfer Cynhalwyr Ifainc?

"Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond roedd hi'n braf siarad â rhywun amdana i"

"Roedd hi'n dda gwybod bod rhywun allan yna eisiau fy helpu i"



Mae llawer o gefnogaeth ar gael i Gynhalwyr Ifainc.

Bydd Gweithiwr Asesu Cynhalwyr Ifainc yn treulio amser gyda chi i ddysgu rhagor amdanoch; dysgu am y pethau rydych chi'n eu hoffi, beth rydych chi'n ei wneud, sut rydych chi'n teimlo a beth fyddai'n gwneud pethau'n haws i chi. Mae'n bosibl eich bod chi'n ei chael hi'n anodd mynd i'r ysgol neu eich bod chi am i'ch mam neu'ch tad gael rhagor o gymorth.

Bydd Gweithwyr Cymorth Cynhalwyr Ifainc yn rhoi cymorth ichi wneud y pethau rydych chi eisiau eu gwneud, fel gweithgareddau hamdden neu gymorth gyda ffurflenni cais coleg, cael cyngor ar gyrsiau a rhoi amser ichi drafod eich problemau.


# Pa gymorth sy 'na ar gyfer Cynhalwyr Ifainc?

"Cyfle i fynd i lefydd, mynd ar dripiau, rhoi cynnig ar bethau newydd a gwneud ffrindiau"

"Mae'n rhywle i fynd a siarad â rhywun arall am unrhyw beth"

"Fe helpon nhw i stopio'r bwlio yn yr ysgol"

"Mae'n gyfle i gael saib"




Os ydych dan 18 oed, mae modd i chi ddod yn rhan o Gynllun y Cynhalwyr Ifainc. Mae'n gyfle i gwrdd â chynhalwyr ifainc eraill a chael saib o'ch dyletswyddau adref. Mae'r cynllun yn trefnu llawer o weithgareddau i Gynhalwyr Ifainc, gan gynnwys sesiynau coginio, chwaraeon, celf a chrefft a digon o amser i fwynhau!

Os ydych chi rhwng 18 a 25 oed, mae Gweithiwr Datblygu Cynhalwyr sy'n Oedolion Ifainc arbennig ar gael sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ogystal â threfnu gweithdai ac achlysuron cymdeithasol.

# Beth arall sydd yna ar gyfer Cynhalwyr Ifainc?

Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n chwilio am ffyrdd o wella pethau i Gynhalwyr Ifainc o hyd. Rydyn ni'n parhau i gyflwyno Gwobrau Cynhalwyr Ifainc RhCT i Ysgolion ac i Golegau. Mae'r Wobr wedi'i hanelu at wella'r ffyrdd o adnabod a chydnabod Cynhalwyr Ifainc mewn lleoliadau Addysg, yn ogystal â sicrhau bod Cynhalwyr Ifainc yn cael y gefnogaeth, yr wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnyn nhw.

YOUNG CARERS SCHOOLS AWARD
GWOBR Y CYNHALWYR IFAINC I YSGOLION

YOUNG CARERS COLLEGE AWARD
GWOBR COLEG CYNHALWYR IFAINC

RHONDDA CYNON TAF

# Felly be' sy nesa?




Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, eisiau gwybodaeth am Gymorth i Gynhalwyr Ifainc, cysylltwch â ni ar
01443 425006
E-bost: carfancynhalwyrifainc@rctcbc.gov.uk
Neges Destun: 07824 496485

Diolch i'r holl gynhalwyr ifainc am eu cymorth wrth baratoi'r darflen yma.